



BWRDD GWASANAETHAU LLEOL GWYNEDD AC YNYS MÔN

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd, 2014 am
2.00yp yn Coleg Menai, Bangor**

PRESENNOL:

Dawn Docx, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Walis George, Grŵp Cynefin (**Cadeirydd**)
Geraint Hughes, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Jerry Hunter, Prifysgol Bangor
Andrew Jones, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr / Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Andy Jones, Prawf Cymru
Marian Jones, Aelod Annibynnol o'r Bwrdd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr
Bethan Jones, Cyngor Sir Ynys Môn
John R Jones, Medrwn Môn
Richard Parry Jones, Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Dyfrig Siencyn Lewis, Cyngor Gwynedd (dirprwyo ar ran Arweinydd
Cyngor Gwynedd)
Peter Newton, Heddlu Gogledd Cymru (**Is- Cadeirydd**)
Sioned Rees, Llywodraeth Cymru
Julian Sandham, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Dilwyn Owen Williams, Cyngor Gwynedd
Emyr Williams, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Bethan Russell Williams, Mantell Gwynedd

Hefyd yn bresennol: Geraint George, Cyngor Gwynedd
Anwen Davies, Cyngor Gwynedd
Rhian Bayley-Hughes, Cyngor Gwynedd
Andy Bruce, Swyddfa Archwilio Cymru (Arsylwr)

1. YMDDIHEURIADAU

Dyfed Edwards, Arweinydd Cyngor Gwynedd
Ieuan Williams, Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn
Ian Rees, Grŵp Llandrillo Menai
Cyng. Alwyn Rowlands, Cyngor Sir Ynys Môn (dirprwyo ar ran Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn)
Trevor Purt, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

2. CROESO

Cyn ethol y Cadeirydd, agorwyd cyfarfod y Bwrdd gan Bethan Jones a groesawodd Andy Bruce o Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). Byddai Mr Bruce yn arsylwi cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol heddiw fel rhan o gasglu tystiolaeth tuag at archwiliad y SAC o'r BGLI.

3. ETHOL CADEIRYDD

Yn ystod cyfarfod diwethaf y BGLI ar 26 Medi, 2014 rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r BGLI y byddai'n sefyll i lawr fel Cadeirydd ac fel aelod o'r Bwrdd oherwydd newid yn ei drefniadau gwaith. Yn sgîl hynny, cyflwynwyd proses ffurfiol yn ystod yr wythnosau diwethaf yn gwahodd enwebiadau gan aelodau'r Bwrdd ar gyfer swydd cadeirydd ac Is-gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn. Canlyniad y gwahoddiad ffurfiol yma ar gyfer enwebiadau oedd derbyn dau enwebiad ar gyfer swydd y Cadeirydd.

Gofynnwyd i'r ddau a enwebwyd adael yr ystafell tra cynhaliwyd pleidlais gudd. Yn sgîl y bleidlais, cafodd **Walis George ei ethol yn Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a derbyniodd Peter Newton swydd Is-Gadeirydd y Bwrdd.**

Fe dderbyniodd Walis George ei swydd fel Cadeirydd a chroesawodd pawb i'r cyfarfod heddiw a nododd wrth y Bwrdd mai ei flaenoriaeth a ffocws fyddai arwain y BGLI tuag at raglen o ganlyniadau pendant a cyflawni yn erbyn blaenoriaethau allweddol ar y cyd.

4. COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 28 TACHWEDD, 2014

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a gynhaliwyd ar 26 Medi, 2014 yn gofnod cywir o'r trafodaethau.

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5. BWRDD GWASANAETHAU LLEOL – BLAENORIAETHAU ALLWEDDOL AR Y CYD


Cyflwynwyd – adroddiad yn amlinellu'r gwaith hyd yma wrth ddatblygu'r 3 Blaenoriaeth Allweddol ar y cyd a'r galluogwyr yn gysylltiedig ar gyfer y BGLI yn dilyn trafodaeth gychwynnol yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd ar 26 Medi, 2014.

Noder isod grynodedeb o'r ystyriaethau:

- 'Roedd un o'r penderfyniadau sylweddol a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn mis Mawrth yn ymwneud â'r angen i flaenoriaethu nifer bychain o ffrydiau gwaith allweddol dros y ddwy flynedd nesaf a fyddai'n galluogi'r Bwrdd i wneud cynnydd wedi'i dystio wrth wireddu ei uchelgais. Gwelwyd y Bwrdd hefyd yn penderfynu datblygu uchelgais newydd yn rhoi goel uwch na'r gorffennol ar lenwi'r bwlch cyllido

gwasanaethau cyhoeddus - trwy sicrhau mwy o gydlynw a ffocws o amgylch rheoli galw;

- Cyfieithwyd trafodaethau yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (26 Medi, 2014) i'r Blaenoriaethau Allweddol a'r Galluogwyr cysylltiedig canlynol:



- Rhoddwyd ystyriaeth i'r priodoldeb o gynnwys Blaenoriaeth Allweddol ychwanegol - i adlewyrchu hinsawdd ariannol gwasanaethau cyhoeddus. 'Roedd trafodaeth hefyd o gwmpas a ddylai iaith a Diwylliant fod yn Flaenoriaeth Allweddol neu yn Alluogwr;
- Yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd, y cam nesaf fyddai datblygu ymhellach pob un o'r ffrydiau gwaith drwy ofyn cyfres o gwestiynau allweddol i bob partner y BGLI:

- C1 Beth ydy'r materion allweddol i ddinasyddion a phob sefydliad mewn perthynas â'r Blaenoriaethau Allweddol/Galluogwyr?**
- C2 Beth arall 'rydym angen gwybod?**
- C3 Beth yw'r allbynnau sefydliadol ar gyfer pob partner y BGLI?**
- C4 Pa strwythurau sydd eisoes mewn bodolaeth i gyfarch yr allbynnau/ materion hyn?**
- C5 A oes unrhyw fylchau?**
- C6 Oes angen i ni fod yn fwy gysylltiedig – beth allwn wneud yn well gyda'n gilydd ar gyfer dinasyddion Gwynedd ac Ynys Môn?**
- C7 Beth ydy'r ymrwymiad gan bob partner y BGLI?**
- C8 A oes unrhyw aliniadau â chynlluniau strategol eraill eisoes mewn bodolaeth?**

- Argymhellwyd arddull rheoli rhaglen fel sail i'r cam nesaf o ran datblygu Blaenoriaethau Allweddol y Bwrdd gan canolbwyntio ar gyfleu:
 - i. Cynigion ar gyfer gwella perfformiad trwy gydweithio;
 - ii. Allbynnau dinasydd a sefydliadol a ddymunir fesul Cynnig;
 - iii. Sail tystiolaeth ar gyfer pob Cynnig;
 - iv. Cyfraniad partneriaid y BGLI i bob ffrwd gwaith;
 - v. Strwythur cyflawni a llywodraethu o dan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i wireddu pob Blaenoriaeth Allweddol a Galluogwr;
- Amserlen – argymhellwyd cyflwyno'r cynigion drafft lefel uchel ar ffrydiau gwaith y 3 Blaenoriaeth Allweddol i'r BGLI ym mis Mawrth, 2015 a cheisio cymeradwyaeth y Bwrdd i'r ffrydiau gwaith manwl ym mis Mehefin, 2015.

PENDERFYNWYD:

- **Cymeradwyo cyfeiriad y daith a symud ymlaen i'r cam nesaf - o ddatblygu'n llawn y 3 ffrwd gwaith sy'n sail i bob un o'r Blaenoriaethau Allweddol a Galluogwyr;**
- **Cadarnhau'r 3 Blaenoriaeth Allweddol a Galluogwyr fel y nodir uchod;**
- **Dirprwyo cyfrifoldeb arweiniol ar gyfer pob Blaenoriaeth Allweddol a Galluogwyr i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol fel a ganlyn:**
 - i. **Pobl Hŷn** - Bwrdd Iechyd (i'w gadarnhau)
 - ii. **Teuluoedd Camweithredol** - Gw. Peter Newton
 - iii. **Cymunedau Cynaliadwy / Adfywio Cymunedol** - Dilwyn Williams
- **Sefydlu 3 thîm prosiect i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu Blaenoriaethau Allweddol a Galluogwyr y Bwrdd - i'w cadeirio gan aelodau arweiniol y BGL.**
- **Sicrhau adroddiadau cynnydd rheolaidd i gyfarfodydd y BGLI dros y misoedd nesaf – ceisio cymeradwyaeth lefel uchel i gynigion ym mis Mawrth, 2015 ac i ffrydiau gwaith manwl y Blaenoriaethau Allweddol ym mis Mehefin, 2015.**

6. YSTYRIAETHAU LLYWODRAETHU Y BGLI

Cyflwynwyd - adroddiad yn ystyried cadernid strwythur a trefniadau llywodraethu presennol y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn dilyn camau cyntaf a gymerwyd gan y Bwrdd i drawsnewid ei hunan.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn arbennig yn ystod y drafodaeth:

- Gwnaed nifer o benderfyniadau allweddol ym mis Mawrth, 2014 gan y Bwrdd yn ymwneud â'i weledigaeth a chyfeiriad strategol i'r dyfodol. Bu un o'r penderfyniadau hynny yn ymwneud â'r angen am adolygiad o strwythurau partneriaethol a threfniadau llywodraethu y Bwrdd [gydag egwyddor o "*bennu ei ffurf yn ôl ei swyddogaeth*" i fod yn sail trafodaethau];
- Nodwyd cynnydd sylweddol yn ystod y 6 mis diwethaf o ran cyflawni yn erbyn y cerrig milltir y cytunwyd arnynt sy'n sail i'r 3 cam cyntaf yn nhaith drawsnewid y BGLI. 'Roedd gwaith pellach wedi'i raglennu dros y misoedd nesaf i alluogi'r Bwrdd i ddechrau gwireddu ei uchelgais newydd a'i gyfeiriad strategol. Byddai angen i'r gwaith hwn ddatblygu ymhellach er mwyn galluogi'r Bwrdd i fod mewn sefyllfa i ystyried mewn modd ystyrlon ei strwythur partneriaethau a threfniadau llywodraethu i'r dyfodol;

- 'Roedd yn amserol fodd bynnag i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ystyried cadernid ei strwythur a threfniadau llywodraethu presennol yn ystod y cyfnod dros dro yma hyd nes y byddai cytundeb ar y ffrydiau gwaith manwl sy'n ymwneud â'r Blaenoriaethau Allweddol ar y Cyd. Teg dweud i'r Bwrdd gychwyn ar gam hollbwysig yn ei drawsnewid ac argymhellwyd bod y Bwrdd yn ystyried y priodoldeb o sefydlu is-grŵp cyflenwi/gweithredol dros dro gyda'r cylch gorchwyl bras canlynol:
 - i. Goruchwyllo cynnydd wrth ddatblygu Blaenoriaethau Allweddol a Galluogwyr y Bwrdd a mireinio cynigion cyn ystyriaeth gan y BGLI;
 - ii. Sicrhau synergedd rhwng y ffrydiau gwaith blaenoriaeth allweddol sy'n dod i'r amlwg;
 - iii. Dadgloi unrhyw rwystrau i gynnydd;
 - iv. Datblygu strwythur cyflenwi a llywodraethu arfaethedig fel sail i weithredu blaenoriaethau'r BGLI;
 - v. Monitro cynnydd yn erbyn llinellau amser y cytunwyd arnynt.
- Cynigiwyd y dylai aelodaeth yr Is-grŵp Cyflawni/Gweithredol gynnwys:
 - Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol;
 - Aelod Arweiniol y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar gyfer pob ffrwd gwaith Blaenoriaeth Allweddol;
 - Uwch Arweinyddion partneriaeth Cyngorau Gwynedd ac Ynys Môn;
 - Uwch Reolwr Partneriaethau.

PENDERFYNWYD:

- **Sefydlu Is-grŵp Cyflenwi/Gweithredol dros dro fel y nodir uchod;**
- **Nodi'r angen i adolygu yn llawn strwythurau partneriaethol a threfniadau llywodraethu dros y misoedd nesaf wrth i'r Blaenoriaethau Allweddol a Galluogwyr gael eu hegluro'n llawn (Is-grŵp Cyflenwi/Gweithredol dros dro i weithredu).**

7. RHAGLEN DDATBLYGU'R BWRDD

Bu i Andrew Jones arwain trafodaeth gychwynol ar raglen ddatblygu posibl i'r Bwrdd i gyd-redeg gyda thaith drawsnewid y BGLI. Nodwyd y pwyntiau canlynol yn arbennig yn ystod y drafodaeth:

- Ystyriwyd Uwchgynhadledd y BGLI ym mis Mehefin, 2014 yn gam cyntaf llwyddiannus wrth adeiladu perthynas o ymddiriedaeth o fewn y Bwrdd ac yn sbardun i lansio rhaglen ddatblygu;
- 'Roedd potensial i'r rhaglen ddatblygu esblygu'n academi dysgu ar gyfer y genhedlaeth nesaf o arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus (Cyfeirnod - Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaeth Cyhoeddus);
- Byddai angen i ganlyniad dymunol unrhyw raglen ddatblygu ymwneud â chreu deinamig cydweithredol ar draws sefydliadau partneriaid y BGLI - yn enwedig yng nghyd-destun newid systemau cyfan sylweddol a di-gynsail;
- Byddai angen rhoi ystyriaeth i'r arddull gorau - gan gynnwys y dysgu o ffrydiau gwaith cenedlaethol cyfredol ar arweinyddiaeth gwasanaeth cyhoeddus.

PENDERFYNWYD:

- Cadarnhau'r angen i symud ymlaen i ddatblygu rhaglen ddatblygu ar gyfer y BGLI;
- Ystyried opsiynau posibl ar gyfer rhaglen ddatblygu'r Bwrdd yng nghyfarfod nesaf y BGLI (Andrew Jones i arwain).

8. DATGANIAD SEFYLLFA – STRWYTHUR PRESENNOL Y PARTNERIAETHAU

Cyflwynwyd – adroddiad yn disgrifio strwythur cyfredol partneriaethau o dan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn ac fe'i gyflwynwyd ar hyn o bryd i lywio trafodaethau ar flaenoriaethau allweddol y BGLI.

Nodwyd y materion canlynol yn arbennig yn ystod y drafodaeth:

- 8.1 Creuwyd strwythur partneriaethol newydd pan ddaeth Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn yn weithredol (Ebrill, 2013). Gwelwyd egwyddor arweiniol wrth gynllunio strwythur y partneriaethau a oedd yn un o gadw pethau'n syml ac osgoi dyblygu ymdrechion;
- 8.2 Bu i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wneud nifer o benderfyniadau allweddol ym mis Mawrth, 2014. 'Roedd un o'r penderfyniadau hynny'n ymwneud â'r angen i adolygu strwythurau presennol y Partneriaethau a threfniadau llywodraethu'r Bwrdd - gan ddefnyddio'r egwyddor "*pennu ei ffurf yn ôl ei swyddogaeth*" fel sail i drafodaethau wrth symud ymlaen;
- 8.3 Cynhaliwyd adolygiad yn ystod yr Haf, 2014, er mwyn:
- Gwerthuso trefniadau/ffurf gwaith strwythurau partneriaethau strategol ynghyd â'u trefniadau llywodraethu a strwythurau;
 - Adnabod nodweddion partneriaethau llwyddiannus cyfredol.
- 8.4 'Roedd nifer o gwestiynau i'r BGLI eu hystyried dros y misoedd nesaf fel y datblygwyd clirdeb o gwmpas ei flaenoriaethau allweddol, strwythur a threfniadau llywodraethu:

C1. A ydy'r strwythur partneriaethol presennol yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol fel y dônt yn eglur?

C2. A fydd y strwythur partneriaethol presennol yn cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i'r dyfodol neu a ddylai ganolbwyntio ei ymdrechion ar weithgarwch cyflenwi yn erbyn gwariant grant?

C3. A fydd y capasiti a'r cymysgedd sgiliau presennol o fewn yr Uned Bartneriaethau'n cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i gyflawni ei flaenoriaethau allweddol fel y dônt yn eglur?

- 8.5 Nodwyd i'r strwythurau partneriaethol presennol (diogelwch cymunedol, plant a phobl ifanc ac ieuchyd, gofal cymdeithasol a lles) fod yn endidau ar wahân heb fawr o atebolrwydd i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. 'Roedd rhai o'r partneriaethau'n cydlynu cyfundrefnau grant. Gwelwyd yr angen i fynd i'r afael â'r dad-gyswllt yma - drwy ddeialog manwl – fel y datblygwyd ffrydiau gwaith Blaenoriaethau Allweddol y Bwrdd. Byddai hyn yn sicrhau bod y strwythur partneriaethol yn datblygu'n ddull cadarn o gyflawni ar raglen a blaenoriaethau'r BGLI.
- 8.6 Byddai'n amserol i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol herio pa mor addas i bwrrpas oedd y strwythur presennol unwaith y byddai ffrydiau gwaith y Blaenoriaethau Allweddol wedi'u datblygu'n llawn (Mehefin, 2015);

- 8.7 'Roedd aelodau'r Bwrdd hefyd yn awyddus i sicrhau eglurder ynghylch y cysylltiadau gyda grwpiau a byrddau rhanbarthol - fel cerbydau i alluogi/gefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i gyflawni ei Flaenoriaethau Allweddol.

PENDERFYNWYD:

- **Nodi'r wybodaeth ar y strwythur partneriaethau presennol ar hyn o bryd;**
- **Nodi'r angen i'r Bwrdd ail edrych ar y mater hwn dros y misoedd nesaf fel y daw clirdeb o gwmpas Blaenoriaethau Allweddol y Bwrdd (ystyriaeth gychwynnol erbyn Mawrth, 2015) - drwy'r Is-Grŵp Cyflawni newydd;**
- **Fel cam paratoadol cyntaf, nodi unrhyw elfennau a rhaglenni statudol/arian grant yn gysylltiedig â'r partneriaethau cyfredol;**
- **Cadarnhau'r angen i ddangos aliniad clir rhwng strwythurau rhanbarthol a phartneriaethau lleol fel bydd y Bwrdd yn diwygio ei strwythurau i'r dyfodol.**

9. EGWYDDORION GWEITHREDU / CYLCH GORCHWYL

Cyflwynwyd y ddogfen Egwyddorion Gweithredu a Chylch Gorchwyl mewn ffurf drafft terfynol i'w chymeradwyo gan y Bwrdd.

Nodwyd y cylchredwyd at aelodau'r BGLI cyn cyfarfod heddiw fersiwn ddrafft o'r ddogfen Egwyddorion Gweithredu a Chylch Gorchwyl a oedd wedi'i diwygio i adlewyrchu trafodaethau yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd (cynhaliwyd 26 Medi, 2014).

PENDERFYNWYD:

- **Cymeradwyo'r ddogfen Egwyddorion Gweithredu/Cylch Gorchwyl fel fe'i gyflwynwyd (Atodiad 1 i'r cofnodion);**
- **Nodi'r angen i ail ymweld â'r ddogfen Egwyddorion Gweithredu yn y dyfodol i adlewyrchu twf, mewnwelediad a chyflawniadau y Bwrdd a bod adolygiad yn cael ei drefnu ymhen 12 mis (Tachwedd, 2015).**

10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD nodi'r trefniadau a wnaed i gynnal cyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar 18 Rhagfyr, 2014 am 2:30 ym yn yr Ystafell Seminar, Coleg Menai, Bangor, Gwynedd.

Eitemau ar yr Agenda:

- **Blaenoriaethau Allweddol y BGLI - adroddiad cynnydd;**
- **Trafodaeth o gwmpas y bwrdd - cynlluniau ariannol pob partner ar gyfer 2015/16;**
- **Rhaglen Ddatblygu'r Bwrdd - cyflwyniad gan Andrew Jones;**
- **Cyflwyniad i'r Bwrdd ar oblygiadau Comisiwn Williams / Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Sioned Rees, Llywodraeth Cymru**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.15yp